

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Hydref 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Hugh Evans / Graham Boase
Awdur yr Adroddiad:	Graham Boase
Teitl:	Cynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru: Y Ddogfen Gynnig

1. Am beth mae'r adroddiad yn son?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r ddogfen gynnig sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 2 sy'n nodi'r rhaglenni blaenoriaeth ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau sydd i gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys mewn cytundeb twf yn y cam Penawdau Telerau gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Ddogfen Gynnig ac awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i ddod i gytundeb Penaethiaid Termau gyda'r llywodraethau yn y DU a llywodraethau Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Ddogfen Gynnig fel (1) sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwymo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol o gwbl ar y cam hwn ac mae'n amodol ar nodi risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol yn fanwl, i'w hystyried yn llawn, pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno er cymeradwyaeth yn ddiweddarach.

3.2 Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.

3.3 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad?

Mabwysiadodd y Cabinet y Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer y Gogledd er mwyn datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Fe wnaeth cabinet y pum cyngor arall sy'n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadu'r strategaeth bryd hynny, hefyd.

Hysbyswyd y Cabinet mewn ail adroddiad ym mis Chwefror 2017 bod rhanbarth y Gogledd wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol i agor trafodaethau am Gynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru: - am adnoddau a phwerau ychwanegol i weithredu ar y blaenoriaethau oedd wedi'u nodi yn y Weledigaeth Twf. Mae nifer o Gynlluniau Dinas a Chynlluniau Twf rhanbarthol wedi'u mabwysiadu ledled y DU.

Ym mis Mehefin eleni, fe wnaeth y Cabinet a'r Cyngor fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu ar gyfer camau cynllunio a datblygu Cynllun Twf. Mae'r Cytundeb Llywodraethu yn grymuso ac yn rheoleiddio'r bartneriaeth ranbarthol rhwng y chwe awdurdod lleol, y ddwy brifysgol, y ddau goleg addysg bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu drwy gyd-bwyllgor o'r enw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r holl bartneriaid wedi mabwysiadu'r Cytundeb Llywodraethu fel ei gilydd.

Gosodwyd dyddiad targed ar gyfer ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf gyda'r ddwy lywodraeth, sef hydref/gaeaf 2018. Mae Dogfen Gynnig, sy'n nodi'r rhaglenni blaenoriaeth ar gyfer gweithgaredd yn y rhanbarth ac yr ydym yn ceisio arian cenedlaethol drwy'r Cynllun Twf ar ei chyfer, wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd y Cynllun Twf yn ariannu rhaglenni a phrosiectau a ddewisir o blith y rhai yn y Ddogfen Gynnig; y rhai sy'n bodloni amcanion a rennir gan y llywodraeth ar gyfer twf economaidd. Y ddogfen yw'r cais rhanbarthol a fydd yn arwain at greu'r cynllun.

Mae'r Ddogfen Gynnig wedi'i datblygu dros gyfnod o amser gyda mewnbwn sylweddol gan y sectorau busnes yn y rhanbarth a'r partneriaid eu hunain, ac mewn cyswllt agos gyda gweision sifil o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddogfen Gynnig yn adeiladu ar y Weledigaeth Twf gynharach ac mae'n cynnig ystod o ymyraethau ar gyfer tyfu'r economi dan gyfres o raglenni blaenoriaeth.

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, penderfynodd y Cyngor y byddai drafft terfynol Cais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno cyn y cam o gyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Mae'r Ddogfen Gynnig yn nodi'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n cael eu hystyried gan y ddwy Lywodraeth i'w cynnwys mewn Cynllun twf, ar y cam Penawdau'r Telerau. Bellach, mae'r rhanbarth ar fin cyrraedd Penawdau'r Telerau.

Ym mis Hydref, gwahoddir y partneriaid rhanbarthol i gadarnhau'r Ddogfen Gynnig er mwyn rhoi mandad i'w harweinyddion ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Ar ôl y Penawdau'r Telerau, byddai'r rhanbarth yn cychwyn cam terfynol datblygu'r Cais a thrafod gyda'r Llywodraethau.

Bydd Cabinet a Chyngor pob un o'r 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ystyried cynnwys yr adroddiad templed sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad 1. Mae'r Atodiad hwn yn darparu rhagor o fanylion am gefndir y ddogfen gynnig.

Penderfynodd y Cabinet ar 15 Hydref 2018 i gadarnhau'r Ddogfen Gynnig a'i chymeradwyo i'r Cyngor i'w fabwysiadu ac awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i fynd i Benaethiaid Telerau â Llywodraethau ochr yn ochr â'r arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw phartner statudol a gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y Cais Bargaen Twf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Mae Cais Bargaen Twf yn fuddsoddiad mawr mewn rhanbarth gan y Llywodraethau, gyda'r risgiau a buddion yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y rhanbarth. Mae cynhwysedd buddsoddiad yn ystyriaeth fawr wrth ddylunio'r Cais. Bydd goblygiadau llawn i gost y Fargaen Twf posib yn cael ei adrodd yn ystod y broses penawdau'r telerau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Ar y cyfan, mae'r Caes Bargaen Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn cael ei asesu fel bod yn cael effaith gadarnhaol ar Ogledd Cymru yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Daw ei brif fanteision o'r mwy o gyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch economaidd, cyfoeth a lles personol a busnes y bydd ei weithgareddau yn creu, yn arwain at gymunedau mwy bywiog a chynaliadwy, gyda llai o amddifadedd a diweithdra, a gostyngiad yn yr anghydraddoldeb sy'n deillio o amddifadedd.

Mae risgiau, fodd bynnag - o ran pa mor gynhwysol fydd y twf a'r effaith y gallai twf gael ar y rhanbarth yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Bydd rheoli'r risgiau hyn yn gofyn am gamau bwriadol gan Gynghorau Gogledd Cymru a'u partneriaid. Mae rhai mesurau lliniaru eisoes ar y gweill, mae angen datblygu eraill.

Mae mwy o fanylion yn yr Asesiad Effaith ar Les sydd wedi ei atodi yn Atodiad 3

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae datblygu cynnwys y Cais Bargaen Twf yn broses gynhwysol gyda chyfranogiad sylweddol ar draws y sector cyhoeddus a busnes.

Mae cynghorwyr wedi cael eu briffio ar fwriadau strategol y Weledigaeth a Strategaeth Twf a datblygiad y Cais Bargaen Twf.

Cafwyd dau gyflwyniad ar y Cais Bargaen Twf i Gyngor Er Gwybodaeth yn 2018.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel a nodwyd yn yr argymhelliad, nid yw cymeradwyo'r ddogfen gynnig yn rhwymo'r Cyngor i unrhyw fuddsoddiad ariannol. Fodd bynnag, os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd costau y bydd yn rhaid i'r cynghorau ac o bosibl partneriaid eraill yn y rhanbarth eu hariannu. Bydd cwantwm y cyfryw gostau yn dibynnu ar fanylion terfynol y prosiectau y cytunir arnynt gan y ddwy Lywodraeth. Nid yw sut a phryd y gellid wedyn ddsbarthu'r costau yn derfynol wedi'i gytuno eto.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Unwaith y byddwn yn gwybod beth yw ystod a chynnwys posib y Cynllun Twf, yn dilyn cytuno ar Benawdau'r Telerau, gellir ymgymryd ag asesiad risg a dadansoddiad cost-budd llawn. Byddai hwn ar gael i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau cyn y byddai'r rhanbarth yn ymrwmo ar y cam cytundeb terfynol y Cynllun Twf yn ddiweddarach yn 2019. Mae dadansoddi risg wedi'i adeiladu i mewn i'r model achos busnes ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau sy'n rhan o ddatblygu'r Cais. Mae gan yr holl brosiectau sydd wedi'u rhestru yn y Ddogfen Gynnig Achos Busnes Amlinellol i ddangos eu gwerth a'u teilyngdod.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

S2 Deddf Llywodraeth Leol 2000